**Cofnodion y Grŵp Trawsbleidiol ar Ddiabetes**

**Dydd Mawrth 8 Tachwedd 2016**

**Yn bresennol:**

Jayne Bryant AC
Jenny Rathbone AC
Justin Warner (Ymgynghorydd Arweiniol mewn Diabetes Pediatrig)
Corinna Bretland (Addysgydd Nyrsys Ysgol Diabetes Arbenigol)
Sara Moran (Diabetes UK Cymru)
Jon Matthias (Rhwydwaith Diabetes Plant a Phobl Ifanc Cymru)
Emma Loyns (Rhiant)
Nicky Nicol (Rhiant)
Dr Robert French
Simon Fountain-Polley
Yvonne Davies
Kate Bevan
Wendy Gane, (Claf Arbenigol)
Penny Griffiths (Cymorth Cyfoedion Diabetes)
Kinsey Jones
David McHale
Katherine Frost
Julie Haycox
Jo Lloyd
Maddie McCulloch
Liana Pengelly
Rhun Ap Iorwerth AC
Dr Dai Lloyd AC
Lynne Neagle AC
Sam Gould, (Swyddfa Nathan Gill AC)
Darren Broham-Nichols
Ryland Doyle
Craig Lawton
Claire Shepperd
Marie Ellinor
Heather O'Connell
Bethan Jones
Sean Newton
Ann Sivapatham
Leoni Oxenham
Gethin Jones
Ann-Marie Boland

**Cyflwyniadau**

Croesawodd Jenny Rathbone y rhai a oedd yn bresennol, i gyfarfod cyntaf y Grŵp Trawsbleidiol ar Ddiabetes yn y Pumed Cynulliad. Esboniodd Jenny, a hithau wedi cadeirio'r Grŵp Trawsbleidiol ar Ddiabetes am bum mlynedd yn y Pedwerydd Cynulliad, roedd hi'n awr yn rhoi’r gorau i’w swydd fel Cadeirydd. Cytunodd Jayne Bryant AC i ymgymryd â'r gadeiryddiaeth am eleni.

Diolchodd Jenny i bawb am eu cefnogaeth a'u cyfraniad yn ystod y pum mlynedd ddiwethaf, pryd y cafwyd llawer o welliannau ar gyfer pobl â diabetes. Mae Lynne Neagle, Suzy Davies, Rhun ap Iowerth a Dai Lloyd wedi cytuno i fod yn aelodau o'r Grŵp, felly mae cefnogaeth drawsbleidiol iddo gan o leiaf dair o’r pleidiau.

**Diabetes mewn Plant a Phobl Ifanc**

Amlinellodd Dr Justin Warner, Ymgynghorydd Arweiniol mewn Diabetes Pediatrig (Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a’r Fro) y gofal sydd ei angen ar gyfer plant â diabetes Math 1. Mae 100,000 o achosion newydd y flwyddyn ymhlith plant a phobl ifanc o dan 16 mlwydd oed. Mae hyn yn golygu bod diabetes yn gymharol gyffredin. Mae'n anhwylder cymhleth i ofalu amdano; gall diabetes a reolir yn wael arwain at

restr o gymhlethdodau, gan gynnwys dallineb, afiechyd yr arennau, a thorri aelodau'r corff.

Mae rhestr o bethau y mae angen eu gwneud i wella canlyniadau. Mae gofal da mewn ysgolion yn hanfodol er mwyn rheoli'r afiechyd yn dda, gan y treulir 16 y cant o fywyd plentyn yn yr ysgol. Hefyd, mae rhieni'n poeni am y gofal y mae eu plant yn ei gael gyda'u diabetes yn yr ysgol.

Nid yw'r Canllawiau o fewn cynllun Llywodraeth Cymru, *Law yn Llaw at Iechyd: Cynllun Cyflawni o ran Diabetes (2013)* yn statudol. Mae hyn yn golygu nad yw ysgolion yn gorfod cydymffurfio ag ef. Yn Lloegr, mae'n cael ei chynnwys yn y gyfraith bod yn rhaid i ysgolion gefnogi disgyblion sydd â chyflyrau meddygol, fel rhan o'r strategaeth i gynnwys pob plentyn, lle bo modd, mewn ysgolion prif ffrwd. Felly, o'i chymharu â'r sefyllfa hon, mae plant Cymru o dan anfantais. Mae hyn yn golygu nad oes cysondeb o ran sut y mae ysgolion yn ymateb pan gaiff disgyblion ddiagnosis.

**Diabetes ac Ysgolion**

Mae Corinna Bretland yn Addysgydd Nyrsys Ysgol Diabetes Arbenigol fel rhan o dîm Justin Warner. Mae Corinna yn rhoi sgyrsiau i ysgolion, plant a staff er mwyn eu haddysgu a'u hyfforddi i ddiwallu anghenion cleifion diabetes. Nid oes unrhyw Fwrdd Iechyd arall wedi sefydlu'r swydd hon hyd yma, ac nid yw'r arian ar ei chyfer wedi'i sefydlu'n barhaol.

Eglurodd Corinna fod Diabetes Math 1 yn effeithio ar bopeth, o ginio ysgol i wersi Addysg Gorfforol, gwneud ffrindiau a chymryd rhan mewn gweithgareddau. Mae'n hollbwysig bod gan athrawon ddealltwriaeth dda o ddiabetes er mwyn cefnogi plant. Mae ar ddisgyblion angen tosturi, dealltwriaeth, ac i gael eu cynnwys ym mhob gweithgaredd, fel nad yw eu cyflwr yn effeithio dim ar eu haddysg.

Pwysleisiodd Corinna y pwynt ynghylch y gwahaniaethau deddfwriaethol rhwng Cymru a Lloegr, ac y dylai'r gyfraith gefnogi plant Cymru. Mae angen arweiniad statudol ar ysgolion, ynghyd ag amser ar gyfer cefnogaeth, addysg a hyfforddiant.

**Profiadau Teuluol**

Cyflwynodd Corinna Emma Loyns a Nicky Nicol, rhieni plant â Diabetes Math 1. Siaradodd Emma am brofiadau ei merch, Maddie, mewn ysgol fach iawn ym Mhen-y-bont ar Ogwr sydd â Phennaeth yn ei swydd ers 25 mlynedd. Nid oedd yr ysgol wedi ymateb yn dda i newid o ran amgylchiadau Maddie. I ddechrau, roedd yn rhaid i Emma fynd i'r ysgol sawl gwaith bob dydd er mwyn profi ei lefelau siwgr yn y gwaed ac i roi'r dos gofynnol o inswlin iddi. Ar un achlysur, disgwyliodd yr ysgol i Emma gyrraedd i drin ei hypo, gan bod yr ysgol yn gwrthod gwneud hynny. Dair blynedd yn ddiweddarach, dim ond un athro sydd wedi'i hyfforddi, ac Emma ei hun a addysgodd weddill disgyblion yr ysgol ynglŷn â chyflwr ei merch. Pwysleisiodd Emma yr effaith emosiynol a gafodd hyn ar y teulu. Nid oedd hi'n gallu dychwelyd i'r gwaith fel athrawes ac roedd sawl achos lle roedd Maddie o dan anfantais oherwydd ei chyflwr.

Roedd hyn yn cynnwys gwahardd Maddie rhag bwyta cacen pen-blwydd yn yr ysgol gyda'i ffrindiau.

Dywedodd Emma fod angen arweiniad statudol fel bod plant â chyflyrau meddygol yn cael y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt. Heb arweiniad o’r fath, bydd y sefyllfa’n effeithio ar iechyd a diogelwch yn aml.

Mae Nicky Nicol, mam Ollie, wedi cael profiadau llawer mwy cadarnhaol gydag ysgolion cynradd ac uwchradd ei mab. Gwnaeth yr ysgol drefniadau i gefnogi Ollie o ran gorfod cael ei guddio. Roedd nyrs diabetes arbenigol wedi darparu hyfforddiant i staff yn yr ysgol, lle roedd pob aelod o staff yn cymryd rhan. Ni chafodd Ollie ei atal rhag cymryd rhan mewn unrhyw weithgareddau, ac ni fu dim effaith ar ei addysg oherwydd y cyflwr. Lluniodd yr ysgol eu fframwaith ei hun, a oedd yn cynnwys cydnabod cyfrifoldeb y staff, a hefyd sefydlu polisi presenoldeb, lle na chaiff plant eu cosbi am eu habsenoldeb os yw'n gysylltiedig â'u cyflwr.

Cytunodd Nicky fod angen arweiniad statudol, gan nad oedd gan bob teulu yr un profiadau cadarnhaol â hi. Yn ogystal â chymorth i deuluoedd, byddai hefyd yn darparu amddiffyniad i ysgolion, gan y byddai'n nodi'n glir yr hyn y dylent ei wneud, a’r hyn na ddylent ei wneud.

**"Cyfle Rhagorol":**

Cyflwynodd Sara Moran, Diabetes UK Cymru, a Jon Matthias, Rhwydwaith Diabetes Plant a Phobl Ifanc Cymru ganfyddiadau allweddol o'r arolwg Diabetes Math 1 mewn Ysgolion ymhlith 60 o deuluoedd yng Nghymru:

- Dim cyfraith ddigonol i gefnogi plant mewn ysgolion.
- Nid yw llawer o ysgolion yn teimlo'n alluog i reoli diabetes plant, ac mae rhai yn anfodlon i wneud hynny.
- Mae deddfwriaeth yn Lloegr wedi cael effaith gadarnhaol - tystiolaeth yn sgîl arolwg o dros 400 o deuluoedd.
- Mae sefydliadau sy'n cefnogi teuluoedd o ran cyflyrau eraill yn nodi profiadau positif yn sgîl y gyfraith.

**Beth nesaf?**

Galwodd Justin Warner ar i Lywodraeth Cymru gynnwys anghenion meddygol yn y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol, sy'n cael ei ddrafftio ar hyn o bryd.

Ni phennwyd dyddiad ar gyfer cyfarfod Tymor y Gwanwyn cyn diwedd y cyfarfod.

Camau i'w cymryd: Jayne Bryant / Diabetes UK